
# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 34 - Gaeaf 2015/16

# GOLYGYDDOL

**Lluniau Ted**

Rydan ni'n siwr y bydd aelodau Cymdeithas Ted yn falch o wybod fod casgliad enfawr sleidiau a lluniau Ted bellach yn saff yn Archif Luniau y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Lluniau adar yw y rhain yn bennaf a dynnodd Ted dros gyfnod o ddeugain mlynedd o'r 1950$^{au}$ hyd inni ei golli yn 1997. Roedd Ted yn flaengar iawn ym myd ffotograffiaeth adar yn y cyfnod cyn-ddigidol a chyhoeddwyd llawer o'i waith mewn cylchgronau a llyfrau. Roedd o hefyd yn ymgyrchydd brwd dros yr amgylchedd a Chymreictod ac yn gyfrifol yn fwy na neb arall yn ei gyfnod am boblogeiddio byd natur drwy ei ddarlithiau, cyhoeddiadau a chyfraniadau ar radio a theledu.

Derbyniwyd cais yn ddiweddar gan y Llyfrgell Genedlaethol am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda chatalogio'r casgliad. Cysylltwch â Twm Elias (manylion isod) os oes diddordeb gennych. Bydd mwy am Ted a'i gasgliad lluniau yn y rhifyn nesa o *Llygad Barcud*.

## Cynnwys:


Bras Cretzschmar: Y cyntaf erioed yng Nghymru *Elfyn Lewis* .... 3
Adar Awstralia (iii) *Twm Elias* .... 6
Y Rhyfel Mawr a'r aderyn to *Gerwyn James* .... 12
Mwynhau adar yr hydref ar Enlli *Ieuan Bryn* .... 17
Taith Malltraeth *Huw Dafydd* .... 21
Gweithgareddau'r Gwanwyn a'r Haf .... 24


**Llun y clawr**: **Elfyn Lewis** (Enlli, Medi 2015 - gweler yr hanes ar dud. 17)


**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd + Ysgrifennydd Aelodaeth**: Brian Paul
Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, LL48 6RT, 01766 770 500
**Cyd-ysgrifenyddion**: Huw Dafydd + Gareth T Jones (pwllheli@gmail.com)
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk



Cynigir gostyngiadau i aelodau'r Gymdeithas yn **Cotswold Outdoor, Betws y Coed**


Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# Y CYNTAF ERIOED I ENLLI AC I GYMRU!



*Bras Cretzschmar* *Llun: Ben Porter*

Bob blwyddyn dros y degawd diwethaf, bu grŵp o adarwyr o ardal Porthmadog yn treulio wythnos o wyliau ar Enlli. Fel rheol, byddwn yn trefnu i'n pererindod flynyddol gyd-fynd ag anterth y tymor mudo un ai yn yr hydref neu yn y gwanwyn. Gan fod Enlli wedi'i lleoli ym Môr Iwerddon mae ganddi enw da am ddenu adar prin, a llwyddodd i ychwanegu dwy rywogaeth newydd ar Restr Adar Prydain. Yn y gorffennol, buom yn ddigon ffodus i weld adar rhagorol fel telor y caeau reis (*paddyfield warbler*), y telor pêr (*melodious warbler*), y telor aur (*icterine warbler*), y telor brongoch (*subalpine warbler*) a'r llinos goch (*common rosefinch*), yn ogystal ag adar môr anghyffredin fel pedrynod cynffon-fforchog (*Leach's petrels*), gwylanod Sabinaidd, adar drycin du (*sooty shearwaters*) ac adar drycin y Baleares (*Balearic shearwaters*).

Eleni, dechreuodd gwyliau chwe ohonom - Dewi Lewis, Robin Evans, Ieuan Bryn, John Parry, Alan Huws a minnau – ar y 7$^{fed}$ o Fehefin, ddiwrnod yn hwyrach na'r bwriad am nad oedd modd i Colin groesi'r Swnt oherwydd gwyntoedd cryfion y diwrnod blaenorol. Ychydig ddyddiau cyn ein hymweliad, gwelwyd gwybedog brongoch (*red-breasted flycatcher*) ac ehedydd y traeth (*shore lark*) ar yr ynys, a dyma ddechrau pryderu ein bod wedi colli adar gorau'r gwanwyn. Ond ar ôl glanio, cawsom ein sicrhau gan Steffan o Wylfa Adar Enlli y gallai unrhyw aderyn anghyffredin fyddai'n dod i'r golwg fod yn aderyn arbennig iawn.

Yn ystod ein gwyliau, byddwn yn hoffi cyfrannu i waith monitro yr Wylfa drwy gofnodi'r adar a welwn, a byddwn yn mynychu'r lòg adar yng Nghristin bob noson y gallwn. Er fod nifer yr adar a nifer y gwahanol rywogaethau'n isel ganol Mehefin, o gymharu â'r hyn fyddant pan fydd y mudo yn ei anterth, roedd y grŵp wedi gweld bron i 60 o rywogaethau erbyn dydd Mawrth. Cawsom olwg ardderchog ar rai o adar eiconig yr ynys fel y brain coesgoch ac adar drycin Manaw, ond ni welsom unrhyw rywogaeth brin nac anghyffredin yn y tridiau cyntaf.

Ar ôl y lòg nos Fawrth, trodd y sgwrs at ddyfalu beth fyddai'r aderyn newydd nesaf a welid ar Enlli. Gan y gwelwyd dros 320 o rywogaethau gwahanol ar neu o'r ynys yn y gorffennol, mae'n gryn gamp ychwanegu rhywogaeth newydd at Restr Enlli ond, wrth drin a thrafod, crybwyllwyd telor Dartford a gŵydd yr Aifft efallai... Ychydig a wyddem y câi criw bychan lwcus, fore trannoeth, weld nid yn unig rywogaeth newydd i Enlli ond rhywogaeth newydd i Gymru!

Roedd dydd Mercher, y 10fed o Fehefin, yn ddiwrnod digon dymunol ac roedd y rhan fwyaf o'r grŵp wedi mynd yn gynnar drwy ganol yr ynys i chwilio am adar mudol ar y corstir isel ac ymysg y coedlannau helyg, ond heb unrhyw lwc. Aeth pedwar ohonom am hoe wedyn ar draeth Solfach. Roeddwn i'n awyddus i gael cinio cynnar ac felly, penderfynais i a Ieuan Bryn olrhain ein camau ar hyd y corstir, ac ymlwybrodd y gweddill i chwilio am geiliog tingoch du a glywyd yn canu yng nghyffiniau'r goleudy.

Tua chwarter wedi unarddeg, roedd y ddau ohonom yn ôl ar yr hen lôn drol sy'n arwain o'r Cafn tua'r gogledd drwy ganol yr ynys. Ar ôl i ni fynd heibio Cristin a'r Wylfa Adar, gwelais aderyn bychan ar ben wal gerrig o dan lwyni corn carw. Codais fy sbienddrych i gael gwell golwg arno, a chefais y pleser hyfryd o weld bras, gyda phen llwydlas a bol oren trawiadol, yn syllu i fyw fy llygaid!

Fy argraff gyntaf oedd mai bras y gerddi (*Ortolan bunting*) yn ei blu haf ydoedd – aderyn anghyffredin i arfordir Gorllewin Cymru. Ond roedd yna ryw amheuaeth yn fy meddwl. Roedd yn fras deniadol iawn a theimlwn ei fod yn fwy lliwgar na'r lluniau o geiliog bras y gerddi a welswn. Tybed ai un o'r breision prin eraill ydoedd – y bras hwnnw sydd ag enw na allaf fyth ei ynganu! Yn ffodus, roedd gen i gamera gyda lens glosio 100-400. Daeth y dieithryn i lawr oddi ar y wal a dechrau hel ei damaid ar y lôn tua 120 o droedfeddi oddi wrthym. Ceisiais ymlonyddu a thynnu ychydig o luniau ohono. Yn y cyfnod byr iawn a dreuliodd yn pigo yma ac acw, llwyddais i gael oddeutu 25 o luniau rhwng y seibiau o'i wylio drwy fy sbienddrych. Roedd y rhan fwyaf ohonynt allan o ffocws ond, diolch byth, byddai un neu ddau'n ddigon da i'n galluogi i adnabod yr aderyn maes o law.

Oddeutu munud ar ôl iddo lanio ar y lôn, hedodd dros y wal a diflannu i gae gwair. Penderfynais mai'r peth gorau fyddai ceisio cael gafael ar staff neu wirfoddolwyr yr Wylfa Adar, er mwyn rhoi gwybod iddynt am yr aderyn a rhag ofn y byddai'n dychwelyd i'r un lle. Dim ond hanner canllath i ffwrdd oedd yr Wylfa Adar, ond doedd yna neb adref. Roeddem ar bigau drain am rai munudau ond



*Rhai o'r cannoedd o dwitsiars ddaeth ar draws y Swnt (Llun: Ben Porter)*

yna, pwy a gerddai linc di lonc i fyny'r lôn ond Steve Stansfield, warden yr wylfa.

"*I've got something interesting, Steve. I think it's an Ortolan but we better check through the photos just in case!*" Gwibiodd Steve drwy'r lluniau gan chwyddo'r rhai gorau ac yna, dechrau ynganu'r enw Cretz... "*Have you any head-on shots of the throat?*" gofynnodd. Daethom o hyd i un ac, o fewn ychydig eiliadau, roedd y warden ar ei radio'n galw staff eraill yr wylfa yn ogystal â'r adarwyr eraill oedd ar yr ynys. "*Elfyn's just found a male Cretzschmar outside Plas Bach!*"

Cyn pen dim, roedd yna dyrfa fechan wedi ymuno gyda ni wrth Plas Bach yn gynnwrf i gyd, a minnau'n dangos iddynt y lluniau roeddwn wedi'u tynnu. Gwta awr yn ddiweddarach, cafodd Steve Hind o'r Wylfa Adar gip ar y bras Cretzschmar cyn iddo ddiflannu eto ac achosi deuddydd o rwystredigaeth ac ing, cyn i griw Porthmadog ddarganfod y cythraul bach yn canu ar ffens ar ochr y trac sy'n arwain at y goleudy.

Roeddynt yn ddyddiau cyffrous dros ben ac yn ffigar-êt emosiynol i bawb: y wefr o ddarganfod aderyn mor arbennig (ie, y cyntaf i Gymru!), y ddeuddydd maith a'r wynebau hir cyn iddo ddod i'r fei eto, ac yna'r gorfoledd, y cofleidio, yr ysgwyd llaw a'r gwenu led y pen.

Yn anffodus, roedd ein gwyliau ni'n dod i ben ddydd Sadwrn, y 13eg o Fehefin – union ddiwrnod cyn i'r Cretzschmar gael ei 'hoelio' ar dir y goleudy. Ac yno, dros yr wythnos ddilynol, y byddai'n dangos ei hun i gannoedd o adarwyr o bell ac agos.

Fe gollson ni'r twitsh mwyaf a welodd Enlli erioed, ond roedd hi'n gryn hwyl dilyn y cyfan ar y We.

**Elfyn Lewis**

# ADAR AWSTRALIA (iii)



*Uluru wrth iddi nosi*

***Awst 10fed***: Glandŵr, Tinaroo, Queensland. Bwrw yn y bore, ond glaw mân neu smwclaw oedd o i Gwyneth a Grant. Iddyn nhw mae tri math o wlaw: smwclaw fel heddiw, glaw (weipars car yn mynd ffwl pelt) a Seiclon! Adroddiadau tywydd ar y teli yn dangos tymheredd Cairns: 26˚C (dydd)/18˚C (nos); Caernarvon (gog.-orllewin Awstralia): 27˚C/13˚C; Canberra: 14˚C/-4˚C; Swansea (Tasmania): 12˚C/2C˚.

***Awst 11fe*** : diwrnod yng ngwarchodfa Gwlyptir Mareeba, llynnoedd a llwybrau drwy goedwig ewcalypt sych. Ceir amrywiaeth dda o adar yma yn enwedig ar y tri llyn. Un o'r cynlluniau difyr oedd ar waith yma oedd bridio ac ailgyflwyno pila-gwellt Gould yn ôl i'r gwyllt. Yr adar lliwgar hyn wedi prinhau'n arw oherwydd colli cynefin a newid hinsawdd ac yn cael eu hailgyflwyno i ardaloedd addas yn y gogledd.



*Jacana cribog yn cerdded dros y lilis dŵr*



*Gwanwr, neu Anhinga, yn aros am ei ginio*

***Awst 12***[fed]: codi'n gynnar am daith 10 awr efo Gwyneth ac Anwen i fferm wartheg enfawr Harrogate yng ngorllewin Queensland at Kim, merch Anwen, a'i gŵr Brian a'r plant. Taith oddeutu 250 milltir drwy goedwig ewcalypt ddi-dor dros fynyddoedd y Great Dividing Range a'r gwastatir tu hwnt hyd at Hughenden. Oddiyno, am oddeutu 100 milltir arall, roedd y tir yn baith gwastad agored.



*Pila-gwair Gould yn bwydo'i gyw*

***Awst 13***[eg]: y tir yn Harrogate yn ryw 19,000 o aceri ar gyfer pesgi gwartheg Brahma, brid ddatblygwyd o wartheg o'r India yn wreiddiol ac sy'n gallu dygymod â'r gwres a gwrthsefyll afiechydon yn llawer gwell na gwartheg Ewropeaidd. Dros 200 milltir i'r gogledd, yn ardal y Gwlff (Carpentaria), mae Brian yn dal tua miliwn o aceri. Tir sych iawn, felly mae angen digon ohono. Yn y gorllewin, yn y 'canol coch' go iawn, gall daliadau fod gymaint a 5-6 miliwn o aceri.

Am fod y daliad mor fawr y ffordd orau i fynd o'i gwmpas yw mewn hofrennydd fechan ac i gyrraedd y tir yn y Gwlff, awyren Sesna fechan. Cefais y fraint o fynd am dro yn yr hofrennydd i weld y gwartheg yn pori yng nghyffiniau



*Gwerniar Awstralia*



*…..ac ambell emiw swil*

un o’r cafnau dŵr sydd wedi eu gwasgaru ar draws y tir ac i ryfeddu at ehangder di-derfyn y peithdir gwastad i bob cyfeiriad. Daw’r cyflenwad dŵr drwy bibellau o ffynnon artesian gryn bellter i ffwrdd ac i symud y gwartheg o un rhan o’r daliad i’r llall bydd Brian yn cau’r tap i’r cafn dŵr yn yr un lle ac agor un mewn cafn arall rai milltiroedd i ffwrdd. Bydd yr anifeiliaid yn symud yn naturiol at y dŵr. Nid yw’n gwarafun i ambell gangarŵ, emiw a hydnoed gamel gwyllt gael diod o’r cafnau. Ond gall moch gwylltion fod yn drafferthus. Bydd y rhain yn dueddol o neidio i’r cafn a malu’r belan a braich sy’n rheoli’r dŵr gan achosi gwastraff.



*O ffenest y car*

***Awst 14eg***: cychwyn 7.00yb i dref fechan Richmond i gefnogi Kim, oedd yn rhoi sgwrs gerbron cynhadledd ar Addysg yn y ‘Bush’ i blant ar y daliadau anghysbell. Y drefn yw y bydd plant dan 13 oed yn cael addysg gartre gan athrawes fydd yn byw ar y daliad yn ystod y tymor ac yn gwneud defnydd helaeth o Skype i gynnal gwersi ar y cyd â thiwtoriaid a phlant eraill fyddai efallai rai cannoedd o filltiroedd i ffwrdd. Pan yn 13 oed bydd y plant yn mynd i ysgol breswyl. Kim yn cyflwyno’r achos dros barhau a gwella’r ddarp-ariaeth ar gyfer addysg gartref.



*Lledu ei gynffon a throi’n gyflym i osgoi’r bioden!*

Golygfa ryfeddol ar y ffordd adre. Roedd eryr cynffon-letem (*wedge-tailed* neu *‘Wedgie’*) anferth wedi glanio ar gorff rhywbeth oedd wedi ei ladd ar y ffordd. Gyrru’n ara bach o fewn llathenni iddo cyn i’r hen dderyn mawr benderfynnu nad oedd o’n hoffi’n golwg ni a chymryd i’r awyr. Bu’n hedfan gyfochrog â ni am ychydig. Yna, yn sydyn, dyma bioden yn dod fel bwlet o rywle – o le, Duw a ŵyr – a mynd amdano! Lledodd yr eryr ei gynffon fawr a gwneud y tro pedol mwya anhygoel yn

yr awyr i osgoi ei ymosodwr. Dringo i'r entrychion wnaeth o wedyn i ddiogelwch ei gynefin ei hun.

Roeddwn wedi gweld rhywbeth tebyg yn Canberra ar daith yng nghwmni John Bundock (*Llygad Barcud* 33). Bryd hynny daethom ar draws *'wedgie'* mawr efo corff rhywbeth ar ymyl y ffordd. Aros a cherdded yn ôl, ond reit fel yr oeddem yn codi'n camerâu i dynnu llun dyma ryw hen bioden gythraul yn saethu amdano a'i hel i ffwrdd. Ydyn, mae piod Awstralia yn ffyrnig o ymosodol.

***Awst 16eg*** : dilyn yr Afon Flinders am rai oriau i weld be welwn i. Galâs, byjerigars, corela bychan (math o gocatŵ), sawl math o grëyr, barcud chwibanog a hirgoesiaid. Ond y profiad gorau oedd cael teulu o Apostolion llwyd (*Apostle birds*, am mai tua dwsin fydd yn yr uned deuluol fel arfer), neu *'happy jacks'* oedd yn digwydd pasio heibio drwy ganghennau uchaf y coed yn dod i lawr i gael golwg arna' i. Dyma adar hynod o chwilfrydig sy'n meddu ar drefn gymdeithasol gref iawn. Ceiliog a iâr *alpha* yw'r uned fridio a byddant yn dibynnu ar eu teulu estynedig i amddiffyn y nyth a magu'r cywion. Am eu bod yn byw'n llawer hirach na'n hadar Ewropeaidd ni nid oes angen iddynt fridio mor gyflym ac yn buddsoddi llawer mwy ym magwraeth eu cywion gan ddibynnu ar gymorth y teulu estynedig.



*Apostol llwyd ryw ychydig droedfeddi uwch fy mhen*

Roedd yn brofiad bendigedig cael yr adar cyfeillgar hyn yn dod i lawr ataf, pawb yn ei dro, fesul dau neu dri, tra bo'r gweddill yn aros amdanynt yn y canghennau uchaf. Trydar parhaus wrth iddynt sgwrsio ymysg ei gilydd: "Be 'di hwn d'wad?", "Wel am beth od!", "F'asa'r blew 'na dan ei ên o'n iawn i leinio nyth?". Mae *repertoire* galwadau, neu eirfa, yr *'happy jacks'* yn enfawr ac ymysg y mwyaf datblygedig o'r holl adar yn nhyb rhai – sy'n gwneud synnwyr ymysg adar mor gymdeithasol. Efallai fy mod yn iawn felly i ddweud mai sgwrsio oedden nhw.

Wrth fynd i fyny’r afon dyma sylwi ar grocodeil yn nofio’n braf yn un o’r pyllau efo dim ond ei lygaid a’i ffroenau uwchben y dŵr. Yna fe suddodd i’r gwaelod.



*Y croc dŵr croyw, â blaen ei gynffon yn y dŵr*

“Ew, mae’n rhaid imi gael llun o hwn i Gymdeithas Ted” medda fi wrth fy hun. Dyma aros iddo godi unwaith eto. Bron i hanner awr yn ddiweddarach roedd yr hen groc yn dal i orwedd ar waelod y pwll. Roeddwn yn poeni amdano erbyn hyn ond fe ataliais fy hun rhag neidio i’r pwll i’w gael i’r lan a rhoi CPR iddo a chwythu gwynt i’w ffroenau. Ryw ddwyawr yn ddiweddarach, pan oeddwn yn dychwelyd i lawr yr afon, roedd o wedi halio’i hun bron allan o’r dŵr heblaw am flaen ei gynffon. Mi lwyddais i fynd yn ddigon agos i gael y llun yr oeddwn ei eisiau y tro hwn. Croc dŵr croyw oedd o, ryw 10-12 troedfedd o hyd, oedd yn dipyn llai na’r *‘saltie’* mawr welais i yn Cape Tribulation (gw. *Llygad Barcud* 32).

***Awst 23ain***: un o’r pethau sy’ raid ei wneud yn Awstralia yw mynd i weld y graig fawr goch ’na, Uluru. Felly hedfan i Alice Springs, taith oedd yn agoriad llygad i pa mor fawr ac anial yw’r wlad. Ymlaen wedyn mewn awyren lai i ganolfan dwristiaeth Ayers Rock. Trip pecyn am dridiau oedd hwn ond wedi ei drefnu’n dda. Cyfle i weld y graig fawr (mae tua 500’ o uchder) ar y machlud: bar-b-ciw gerllaw wedi iddi nosi a chyfle i ddod i nabod croes y de a nifer o’r cytserau deheuol eraill sy’ allan o’n golwg ni yng Nghymru. Roedd ambell un yn gyfarwydd, e.e. Orion, neu’r Heliwr, oedd â’i ben i lawr – wel yn Awstralia oeddwn i wedi’r cyfan.

***Awst 24ain***: codi’n gynnar i gyrraedd ochr bella’r graig i weld y wawr yn torri drosti. Roedd clywed côr y dingos yn udo yn y pellter yn gyrru ias i lawr y cefn. Taith rownd y graig yn ddiweddarach (mae hi tua 3 milltir o hyd) a chael ei stori. Roedd yn bosib dehongli pob ffurf, crac a rhigol ynddi a’u darllen fel llyfr darluniadol yn cyflwyno stori’r frwydr rhwng y ddwy sarff enfawr sy’n greiddiol i chwedloniaeth brodorion cynhenid Awstralia. Safle hynod o sanctaidd.

***Awst 27ain*** : rhywbeth arall oedd raid ei wneud oedd trip i’r Barrier Reef. Cychwyn yn blygeiniol ar gwch o Cairns i Green Island neu Ynys Green – wedi ei henwi ar ôl ryw Mr. Green oedd yn un o’r criw ar long Captain Cook pan hwyliodd hwnnw heibio dros ddwy ganrif yn ôl.

Ynys fechan ryw filltir o hyd o dywod cwrel ac wedi ei gorchuddio gan jyngl a choed coconyts yw hon. Roedd yr adar yn eithriadol o ddof yma: y ddau ffurf o grëyr y rîff, sef un math gwyn a math arall llwyd, mor-wenoliaid cribog a rhegennod broncenglog bychain oedd o dan eich traed bron. Mae'r rhegen hon, arferai fod yn gyffredin ar lawr y goedwig drofannol ar y tir mawr, bellach yn brin iawn yno am fod cathod fferal wedi eu difa cymaint. Ond, fel llawer o adar tebyg maent yn cael noddfa ar yr ynysoedd.



*Rhegen frongenglog yn ddof iawn*

Bum am sbel yn gwylio melysor brown (gw. *Llygad Barcud* 32) yn ceisio codi nyth. Ond druan bach, unwaith yr oedd yn gadael i chwilio am fwy o ddeunydd nythu roedd un arall mwy o faint yn dŵad yno a dwyn pigeidiau! Fe gafodd y mawr gopsan yn y diwedd ac fe aeth yn andros o ffrae a chwffas. Y canlyniad oedd i'r bychan roi'r gorau iddi a symud i rywle arall.

Yn nodi'r sianel at y lanfa roedd dau bolyn yn y dŵr, un efo golau gwyrdd ar ei ben a'r llall efo golau oren. Fe sylwais bod toman o frigau ar y llwyfan ar ben bob un ac wedi meddwl efallai mai nythod bili dowcars oedden nhw. Ond ymhen sbel fe sylweddolais nad dyna oedden nhw oherwydd yn y pellter dyma ddau dderyn mawr yn ymddangos ac yn y diwedd yn glanio ar un o'r llwyfannau. Gweilch y pysgod oedden nhw a chyn bo hir dyma drydydd gwalch yn cyrraedd. Roeddwn wrth fy modd. Roedd y môr ar drai erbyn hyn a llawer o gwrel yn brigo i'r wyneb am tua milltir i bob cyfeiriad gan adael pyllau gweddol fas a rheiny yn llawn pysgod. Helfa hawdd iawn i'r gweilch ac fe gefais yr olygfa orau erioed ohonynt yn plymio a dal eu prae.




*Gwalch ar lwyfan y golau gwyrdd*

Mae gweilch y pysgod Awstralia ron' bach yn llai na'n rhai ni ac mae eu pennau 'chydig yn oleuach. Mater o ddewis os ydych yn eu hystyried yn is-rywogaeth ar wahân neu beidio. Beth bynnag am hynny, roeddent yn fy atgoffa o adre ac o fewn 'chydig ddyddiau wedyn roeddwn innau 'ar fy adain' yn ôl i Gymru fach.

**Twm Elias**

## 1914-18: Y RHYFEL MAWR YN ERBYN YR ALMAEN, Y DDIOD A'R 'DERYN TO

Ar y 4ydd o Awst 1914 fe ddechreuodd y Rhyfel Mawr, ac o fewn dyddiau roedd gwledydd Ewrop yng ngyddfau'i gilydd. Holltwyd y cyfandir gan wrthdaro milain ac erchyll, a phan dawelodd y gynnau mawr yn Nhachwedd 1918, roedd mwy na deng miliwn o bobol ar draws y cyfandir wedi eu lladd, ac ugain miliwn arall efallai wedi eu clwyfo. Hwn, heb os, oedd trychineb mwya'r ugeinfed ganrif.




Ond nid ymladd yn erbyn y Caiser a'r Pwerau Canolog yn unig ddaru Prydain yn ystod y cyfnod argyfyngus hwn - fe ymladdwyd sawl gelyn arall. Yn Ionawr 1915, fe gyhoeddodd David Lloyd George, Canghellor y Trysorlys ar y pryd, fod Prydain bellach mewn rhyfel yn erbyn *"..Almaenwyr, Awstriaid a'r Ddiod Gadarn, a hyd y gwelaf i ..*" meddai, "..*y mwyaf o'r rhain oll yw'r Ddiod Gadarn*." Ac felly y bu pethau - aeth y Canghellor ati ar unwaith i ymosod ar y bragwyr, y tafarnwyr a'r yfwyr, gan wanhau cryfder cwrw, atal pobol rhag prynu diod i'w cyfeillion, a thrwy gwtogi oriau agor y tafarndai.

Yna - yn fuan wedi hyn, daeth llu o elynion newydd i sylw'r awdurdodau. Fel y ddiod gadarn '*gelynion mewnol'* oedd pob un; llygod mawr, llygod bach, cwningod, brain, colomennod coed, a'r *Passer domesticus* neu aderyn y to. Yn ôl y llywodraeth, roedd y giwed hon yn achosi gwerth deugain miliwn o bunnau o ddifrod yn flynyddol. Roedd y llygoden fawr, sef y prif droseddwr yn gyfrifol am £15 miliwn o golled i'r wlad, tra'r oedd y deryn to druan yn gyfrifol am ddinistrio gwerth £8 miliwn o fwyd. Y prif gyhuddiad yn erbyn yr aderyn bach hoffus hwn oedd ei fod yn creu hafoc yn y caeau ŷd. Gallai haid o'r adar bach dinistriol hyn ddifetha llond cae o wenith neu farlys, meddid, a hynny mewn byr amser.



*Passer domesticus neu Aderyn y To*

Yr hyn oedd wrth wraidd hyn oll wrth gwrs oedd llwyddiant ymgyrch U-boats yr Almaen. Yn 1915, fe ddechreuodd yr Almaenwyr suddo'r llongau masnach oedd yn cario grawn o Ogledd America i Brydain, ac o ganlyniad, roedd bara yn brin. Cafwyd ymgyrch i dyfu mwy o fwyd, ond yn ôl rhai, roedd angen brwydro ar ddwy ffrynt, ac felly, yn 1916 aeth yr awdurdodau ym Mhrydain yn ffurfiol i ryfel yn erbyn *Passer domesticus*. Ond, roedd sawl un o fewn y gymuned amaethyddol eisoes wedi



*Syr John Eldon Bankes (1854-1946)*

dechrau brwydro. Roedd amaethwyr yn flaenllaw iawn yn yr ymgyrch, ac yma yng Nghymru, un o'r rhai mwyaf brwd yn y cyrch yn erbyn y deryn to oedd yr Arglwydd Farnwr John Eldon Bankes. Roedd Bankes - un o dirfeddianwyr mwyaf Sir Fflint a Thori digyfaddawd, yn ffyrnig o blaid ymladd y gelyn pluog bychan hwn ble bynnag y bo. Nid yn unig oedd y barnwr yn adnabod y gelyn, roedd o hefyd yn gwybod yn iawn sut yr oedd delio â'r cnaf - sef, trwy ddefnyddio byddin o blant ysgol i ymlid yr aderyn bach.

"*Gelyn naturiol Aderyn y To*" meddai'r Barnwr mewn araith yn y Wyddgrug yn Hydref 1915 "*yw'r bachgen bach, ond mae'r bachgen bychan wedi cael ei ddysgu ei bod yn drosedd i ddwyn nyth aderyn. Mi rydw'i am i'r awdurdodau cyhoeddus, yr ysgolfeistri a'r rhieni ddweud wrth y bechgyn mai'r peth gorau allan nhw wneud tros eu gwlad yw lladd yr adar to, a'u hatal nhw rhag bwyta'r cnydau*". Diolch i ymdrechion John Eldon Bankes a'i debyg, fe ddechreuwyd brwydro go iawn.

Erbyn 1917 roedd gwleidyddion San Steffan a swyddogion y Bwrdd Amaeth wedi ymuno â'r ymgyrch, ac yn rhai ardaloedd yn Lloegr, cafwyd llwyddiant rhyfeddol yn erbyn y gelyn bychan dinistriol a direidus. Sefydlwyd Clybiau Difa Adar To, a'r mwyaf llwyddiannus mae'n debyg oedd yr un a sefydlwyd yn ardal Newmarket. Mewn adroddiad ym mhapur newydd y Times ar 17 Mai 1917, ceir cofnod o'r ffaith fod aelodau'r *Newmarket and District Sparrow Club*, wedi dinistrio 41,769 o adar a wyau yn y flwyddyn ddaeth i ben yn Ebrill 1917. Roedd hynny, ar gyfartaledd, yn 800 o adar a wyau bob wythnos! Mewn cwta tair blynedd roedd y gymdeithas egnïol hon wedi llwyddo i ddinistrio 161,688 o adar a wyau, a hynny ar gost i'r aelodau o ddimai'r erw.

Ond - roedd modd ymladd mewn ffyrdd eraill hefyd. Yn Awst 1917 cawn hanes dau fachgen ysgol o Merstham, Surrey, a gafodd ganmoliaeth uchel gan y Cyngor Plwyf lleol am eu dyfeisgarwch rhyfeddol. Roedd y ddau fachgen wedi llwyddo i adeiladu trap dal adar to - a hynny ar batrwm yr enwog *Hampton Court Maze*. Llwyddodd y ddau fachgen i ddal 387 o adar bach mewn mater o ddyddiau. Doedd dim pall, fe ymddengys, ar egni a dyfeisgarwch plant Prydain yn y rhyfel rhyfeddol hwn.



*Henry Chancellor A.S.*

Ond, nid pawb, serch hynny, oedd am weld plant y wlad yn cael eu defnyddio ar y 'ffrynt lein' yn y frwydr waedlyd hon, a chyn hir, daeth mater dal adar to yn fater seneddol. Ar y 25ain o Ebrill 1917, fe gododd Henry Chancellor, A.S. Rhydd-frydol Shoreditch, ar ei draed i ofyn i'r Ysgrifennydd

Seneddol y Bwrdd Amaeth os oedd defnyddio plant ysgol i ladd adar bach y to yn y pendraw yn hybu creulondeb, ac oni ddylid felly fynd ati i wahardd yr arferiad? Roedd y gweinidog amaeth, Syr Richard Winfrey, yn gwbl ddiedifar, fel y mae cofnodion Hansard yn datgelu.

> ***Syr R. Winfrey.*** *Mae'r golled sy'n digwydd oherwydd lladrad gan adar to mor ddifrifol fel bod y Bwrdd Amaeth wedi annog sefydlu Clybiau Difa Adar To drwy'r deyrnas gyfan ; ond cyngor y Bwrdd Amaeth yw na ddylid defnyddio plant ysgol i ladd adar to heb oruchwyliaeth athrawon. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm i gredu y bydd plant, sy'n gweithio dan oruchwyliaeth, yn cael eu llygru, yn wir, fe fydd hyn yn y pendraw yn arwain at gael gwared â'r niferoedd enfawr o adar to sydd yn y wlad.*
> ***Syr Tudor Walters.*** *Ai jôc oedd yr ateb i'r cwestiwn, neu a ydyw'r gweinidog o ddifri ?*
> ***Syr R. Winfrey***. *O! Rydw'i o ddifri ynglŷn â hyn.*
>
> *Hansard 25 Ebrill 1917*

Roedd polisi'r llywodraeth felly'n berffaith glir. Roedd yn rhaid difa'r adar bach, a phwy well i wneud hyn na phlant ysgol. Ond, fe ddylid, meddai'r awdurdodau, wneud hyn o dan oruchwyliaeth yr athrawon!

Roedd y dadleuon parthed y rhyfel yn erbyn *Passer domesticus* yn amlwg yn dechrau poethi erbyn haf 1917, a thua'r adeg hon, daeth gwir gefnogwyr y deryn to i'r amlwg. Ond, pwy oedd y rhain felly ? Criw digon cymysg oeddynt a dweud y gwir. Yma yng Nghymru, roedd y capeli a'r ysgolion Sul yn amlwg yn y frwydr - ac yn daer yn erbyn unrhyw fath o greulondeb tuag at adar bach diniwed. Roedd y bardd Richard ab Hugh yn bendant ei gyngor.

> *Paid byth â phoeni tyner fron*
> *Aderyn bach, diniwed llon ;*
> *Y mae lladrata wy neu gyw*
> *Yn torri calon adar Duw.*
>
> **Dysgedydd y Plant** Mai 1915

Neges debyg oedd gan un o awduron **Seren yr Ysgol Sul**, yn Awst 1916.

> *"Y mae rhai bechgyn yn hoff iawn o fyned i chwilio am nythod. A phan ddeuant ar draws un dygant wyau a fyddant yno gan eu tori yn ddifeddwl, ac os y cynhwysa gywion y maent yn ddigon creulawn i ladd y creaduriaid bychain diamddiffyn. Bechgyn drwg yw y rhai hyn, bechgyn a dyfant yn ddynion drwg*."



*Daisy Greville, Iarlles Warwick*

Roedd rhai gwleidyddion, yn enwedig y radicaliaid a oedd wedi hen golli amynedd hefo Lloyd George, a Sosialwyr y Blaid Lafur Annibynnol hefyd yn ffyrnig eu gwrthwynebiad i ymgyrch i ddifa’r adar bach. Un o gefnogwyr mwyaf selog y deryn to oedd Daisy Greville, Iarlles Warwick - gwraig fonheddig liwgar dros ben. Er ei thras a’i theitl, roedd Daisy Greville yn Sosialydd rhonc, ac yn aelod o’r garfan eofn honno a wrthwynebai’r Rhyfel Mawr. Mewn llythyr yn y wasg ym Mehefin 1917, fe ddaeth i’r amlwg ei bod hithau hefyd yn bryderus fod plant ysgol yn cael eu defnyddio yn y rhyfel hwn yn erbyn adar bach. Prif fyrdwn llythyr yr Iarlles oedd bod lladd yr adar a dinistrio nythod yn meithrin creulondeb ymysg plant. Roedd creulondeb meddai’r Iarlles, “yn afiechyd dychrynllyd mewn plentyn, a buaswn yn erfyn ar fam bob plentyn sy’n darllen y llythyr hwn i wneud yn siŵr nad oes yr un plentyn o dan ei gofal hi yn euog o ddinistrio bywyd aderyn.”

Carfan amlwg arall oedd yn gefnogol iawn i’r deryn to oedd y gwyddonwyr, y naturiaethwyr a chriw’r RSPB. Roedd sawl un o fewn y garfan hon wedi sylweddoli fod plant ysgol yn aml yn cael trafferth i wahaniaethu rhwng y deryn to a’i gefnder gwledig, Llwyd y Gwrych, neu *Prunella modularis*. Yn y Faner - fe rybuddiwyd plant Cymru am hyn.

> ***Adar To*** *- Pan yn sôn am ddifa adar to, ni olygir llwyd y gwrych, yr hwn sydd yn aderyn i’w noddi ym mhob modd. Dodwya wy glas, a nytha yn y gwrych. Dylid chwilio am, a difa nythod adar to ar dai, ysguboriau, ystablau, o dan y bondo, ac mewn lleoedd cyffelyb. Rhaid cofio fod llawer o adar bach yn ddefnyddiol i gadw i lawr bryfed, ac edrych Bwrdd Amaethyddiaeth yn ddigofus ar unrhyw symudiad cyffredinol i ymosod ar adar bach, o dan broffes o ddifa adar to. Mewn gwledydd lle difawyd adar bach yn benrhydd bu canlyniadau gofidus. Rhaid atal unrhyw beth felly yn ein gwlad ni. Aderyn y to yw y troseddwr, ac efe yn unig ddylai dalu’r gosp.*
>
> ***Y Faner****, 19 Mai 1917*

Ond, gwaethygu os rhywbeth, wnaeth pethau. Aeth y Clybiau Difa Adar To ati i ladd adar (o bob math) yn ystod 1917 ac 1918, ac ar ben hyn i gyd lladdwyd miliynau o adar gan newyn yn ystod gaeaf caled 1916-17. Erbyn 1918 roedd sŵolegwyr amlycaf Prydain yn darogan gwae, oherwydd erbyn gwanwyn y flwyddyn honno, fe ymddangosodd pla o bryfed a lindys yn y wlad. Cafwyd pla,



*Lindys y Gwyfyn Corn Carw (Cerapteryx graminis)*

Beiblaidd bron, o lindys y Gwyfyn Corn Carw (*Cerapteryx graminis*) yn swyddi Derby ag Efrog. Yno, fe adroddwyd fod cymaint o'r lindys wedi deor fel bod y caeau a'r waliau cerrig wedi troi'n ddu - a bod tir pori yn ogystal â'r coed ffrwythau yn y perllannau wedi cael eu llwyr ddinistrio.

Mewn llythyr di-flewyn ar dafod yn y *Times* ar 25 Ebrill 1918, fe ymosodwyd ar y myth fod y deryn to a'i debyg yn creu dinistr. I'r gwrthwyneb, medd y gwyddonwyr - roedd y mwyafrif o adar, hyd yn oed adar y to, yn llesol i ddynoliaeth. Roedd adar o bob math, a oedd yn byw ar bryfetach, o bwys mawr i'r garddwr a'r ffermwr. Yn olaf, galwodd y gwyddonwyr am derfyn i'r polisi o ddefnyddio plant ysgol yn y rhyfel yn erbyn adar bach. Yn ôl y sŵolegwyr "Ni ddylai plant gael eu defnyddio i ddinistrio adar a nythod adar, hyd yn oed y rhywogaethau sy'n cael eu hystyried yn niweidiol, gan fod yr adar sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddiol, hefyd yn dioddef."

A dyna hi - y Rhyfel Mawr yn erbyn *Passer domesticus*, ac er nad oes ystadegau pendant ar gael, credir fod miliynau o'r creaduriaid bychain diniwed hyn wedi eu lladd yn ystod y cyfnod hwn. Pan dawelodd y gynnau, a phan ddaeth heddwch o'r diwedd yn 1919, bu'n hynafiaid wrthi'n brysur, yn codi cofebion rhyfel a neuaddau coffa ar hyd a lled y wlad, er cof am aberth y milwyr - ond hyd heddiw, ni chodwyd yr un gofeb i gofio am y bennod waedlyd a chywilyddus hon yn hanes y deryn to.

Ond, yn eironig iawn, efallai mai'r neuaddau coffa yn y pendraw, yw'r cofebau mwyaf addas i'n hatgoffa am yr holl adar a ddinistriwyd rhwng 1914 ac 1918. Yn y can mlynedd ers 1918, rhaid cofio fod y neuaddau hyn wedi cynnig lloches, a chartrefi clyd a chysurus, i genedlaethau o adar to a ddaeth yn ddiogel drwy'r Armagedon Fawr.

**Gerwyn James** (Llanfairpwllgwyngyll)

*Cyflwynwyd yr ysgrif hon ar gyfer cystadleuaeth 'Ysgrif yn ymwneud â byd natur' yn Eisteddfod Meifod eleni. Diolch i Bwyllgor yr Eisteddfod ac i Gerwyn am ganiatâd i'w chyhoeddi.*

**Aderyn y To** o'r llyfr 'Yr Adar Mân' gan E V Breeze Jones (1967)

Gosodaf fodrwyau plastig lliwgar ar goesau pob aderyn y to a ddaw i'r ardd. Fel hyn y medraf adnabod pob un ohonynt- wrth ei enw fel petai! Yn arferol, ciliant o'r ucheldir yng Nghymru yn y Gaeaf, ond yma, yn 'Stiniog, dônt i fwyta i'm gardd pan fydd rhew ac eira'n gorchuddio'r wlad. Rhyfedd, onide, na fuasent yn cilio o'r llecyn agored hwn ac yntau ryw fil o droedfeddi ar ochr mynydd. Dichon mai'r digonedd o ymborth a gynigiaf iddynt sy'n eu cymell i aros yma dros y gaeaf.

# MWYNHAU ADAR YR HYDREF AR ENLLI



Mae pob ymweliad ag Enlli yn wahanol. Mae'r tywydd yn wahanol o ymweliad i ymweliad, a'r adar a'r blodau gwyllt yn wahanol o dymor i dymor. Mae'r dirwedd yn gallu edrych yn wahanol iawn: yn y gwanwyn, byddaf yn hoff iawn o weld y caeau wedi'u haredig a'u hau; erbyn diwedd yr haf, bydd y silwair wedi'i gynaeafu a dim ond yr adlodd fydd ar ôl. Yn y misoedd tyner, bydd llawer iawn o ymwelwyr yn croesi yno am y diwrnod ond, o ddiwedd Medi ymlaen, mae'r tawelwch a'r llonyddwch yn llawer mwy cyflawn.

Yn gynharach eleni – ar ddechrau Mehefin – treuliodd hanner dwsin ohonom wythnos yn gwylio adar yr ynys a chael pleser rhyfeddol, yn enwedig pan ddaeth trefnydd ein hymweliadau blynyddol, Elfyn Lewis o Borthmadog, ar draws aderyn nas gwelwyd erioed o'r blaen ar Enlli nac yn unman arall yng Nghymru, heb sôn am Loegr! Bras Cretzschmar o un o wledydd Môr y Canoldir oedd hwn, ac fe heidiodd 'gwingwyr' o bob cornel o Brydain i'w weld. Yn sgil hynny, cafodd Enlli sylw enfawr yn y wasg ac ar y cyfryngau torfol a chymdeithasol, yn ogystal ag yn y cylchgronau adar, a daeth holl fynd-a-dod yr adarwyr ag incwm sylweddol i Wylfa Adar yr ynys ac, wrth reswm, i lywiwr prysur y cwch!

Ddechrau mis Hydref, dau o griw arferol ardal Porthmadog a ddewisodd ddychwelyd am wythnos arall o adarydda, sef Elfyn Lewis a Ieuan Bryn. Cawsant dŷ helaeth uwchben Bae Nant i letya, a gosododd hynny naws ymlaciol, rydd i'r wythnos gyfan oherwydd



*Dryw penfflamgoch*



*Telor aelfelen yn llaw'r fodrwywraig*

roedd yna ddigonedd o le i symud, digon o le i goginio, a digonedd o le i osgoi synau chwyrnu yn y nos! Ychydig iawn, iawn o bobl oedd yn aros yng ngweddill y tai hefyd, a doedd yna fawr ddim ymwelwyr dydd.

O fewn gwta awr i fod ar yr ynys, dyma ddod ar draws ceiliog dryw penfflamgoch ymysg tua dwsin o ddrywod eurben, ar gyrion coedwig y Nant. Er ei fod, yn ôl ei arfer, yn hynod o aflonydd ac yn dartio'n wyllt o frigyn i frigyn, cawsom sawl golwg agos arno yn llygad yr haul, a'r plu pen amryliw ar dân.

Un aderyn yr oeddwn i'n gobeithio ei weld oedd telor aelfelen. Roedd yna rai cannoedd newydd gyrraedd arfordir dwyreiniol Prydain o gyffiniau mynyddoedd yr Wral, a dyma gael neges un bore gan staff yr Wylfa Adar i ddweud bod yna un wedi'i ddal yn y rhwydi a'i fod wrthi'n cael ei fodrwyo. Mynd ar garlam yno a chael fy syfrdanu'n llwyr gan dlysni ac eiddilwch y bychan oedd yn gorffwyso'n fodlon braf yn llaw'r fodrwywraig.

Yn aml, bydd ein sbienddrych yn rhoi camargraff i ni o wir faint adar. Roedd meddwl bod telor mor fychan (sy'n dair modfedd o hyd ar y mwyaf) wedi hedfan y fath bellter yn fy nghyfareddu. Aderyn bach gwyrdd a llinell felen amlwg uwchben ei aeliau ydi o, ac mae'r enw Cymraeg arno'n un hyfryd ac addas dros ben. Fy unig siom oedd nad oeddwn wedi'i weld yn hedfan yma ac acw'n rhydd. Tybed, tybed a ddeuen ni o hyd i un yn y gwyllt cyn diwedd yr wythnos?

Ar lethrau gorllewinol Mynydd Enlli, roedd yna bâr o hebogiaid tramor yn mwynhau rhyddid yr wybren glir i'r eithaf. Roedden nhw yn eu helfen ac ambell dro'n dyffeio a chogio ymosod ar y brain coesgoch. Roedd un ohonyn nhw gryn dipyn yn fwy na'r llall; rhaid mai'r iâr oedd hi. Yr eiliad nesaf, ysgubodd y ceiliog i lawr ysgwydd y mynydd ar wib anferthol gan ddiflannu o'n golwg y tu ôl i goedwig y Nant, cyn saethu i fyny eto yn angheuol o chwim. Heddiw, dim ond ymarfer ei sgiliau yr oedd.

Cofiaf weld un ar yr ynys, rai blynyddoedd yn ôl, yn llarpio pedryn cynffon fforchog o fewn ychydig lathenni i'n cuddfan. Roeddwn i'n gandryll ar y pryd oherwydd dyna'r pedryn cynffon fforchog cyntaf erioed i mi ei weld. Dim golwg o



*Tinwen y garn*

bedryn na hebog y tro hwn ond, rhwng y guddfan a Maen Bugail, mae yna sgiwen Arctig yn plagio gwylan benddu'n benderfynol er mwyn iddi gyfogi ac ildio'i bwyd.

O dro i dro, daw huganod hardd yn agos iawn at y guddfan wrth iddynt hedfan i fyny'r Swnt a gwyro wedyn tua'r de er mwyn dilyn glannau gorllewinol yr ynys. Maen nhw mor osgeiddig, eu hadenydd hir yn glaer-wyn, a'u pen patrymog fel darn o gerflun cywrain. Aeth dros gant ohonyn nhw heibio un diwrnod. Ar fore arall, buom yn gwylio haid o ddeugain ohonyn nhw'n plymio i'r môr fel picelli. Yn gwmni iddyn nhw, roedd yna wylanod coesddu, gwylanod cefnddu lleiaf, ychydig o adar drycin Manaw, un aderyn drycin y graig, un aderyn drycin y Baleares a dwy wylan Môr y Canoldir.

O'n llety, yn oriau mân y bore, clywem yn aml ddwy dylluan fach yn galw ond, o ran cael cip arnynt, doedd yr un ystryw na thacteg yn tycio!

O blith yr adar ysglyfaethus, cudyllod glas oedd y rhai hollbresennol, yn enwedig wrth goed y Nant ac ar lethrau'r mynydd. Gwelsom un yn cipio ysguthan, ryw ugain llath oddi wrthym, ac yn ei phluo'n dawel a gochelgar mewn pant bychan yn y cae. Wrth geisio cael golwg gliriach ar ganlyniad yr ymosodiad, aethom fymryn yn rhy agos ac, wedi i'r llarpiwr llym godi a gadael ei brae gwaedlyd am y tro, fe'n synnwyd gan faint yr ysguthan a loriwyd. Roedd cnawd cochbinc y frest wedi'i ddryllio a'i ddarnio'n barod, a phan wnaethon ni ddychwelyd i'r llecyn gyda'r nos, roedd y sgerbwd wedi'i gasglu a doedd dim ar ôl ond dyrnaid o blu.

Gwyddai'r cudyll bach hefyd ble i gael cynhaliaeth. Bob diwrnod, byddai corhedyddion y waun a chorhedyddion y graig yn heidio i Ben Diban i wledda ar y pryfed teiliwr yno. Gwelsom y cudyll, fwy nag unwaith, yn aros ei gyfle ar greigen wrth y goleudy ac yna'n mynd fel mellten, yn isel uwchben y ddaear ac yn syth fel saeth tua'i nod.

Daliem yn ffyddiog y byddem yn gweld telor aelfelen arall cyn diwedd yr wythnos ond, er chwilio a chwilio, ni chawsom fawr o lwyddiant hyd nes i ni glywed un yn galw, ryw brynhawn, ymysg y gwiail ar gyrion gardd Tŷ Capel. Mae'n aderyn eithriadol o fywiog ac, yn ffodus, mae ganddo ddau arferiad sy'n ei gwneud yn haws ei ddarganfod: bydd yn sboncio'n uchel oddi ar frigau coed wrth geisio dal pryfetach, a bydd yn hel ei damaid o fewn ardal weddol gyfyng. Y peth

gorau, felly, yw aros yn yr unfan. Dyna a wnaethom ac, ymhen hir a hwyr, dyma ei weld yn rhoi sbonc uchel o ganol llwyn gwiail ac yn ei heglu hi i ganol llwyn arall. Daeth i'r golwg sawl gwaith wedyn, ac roedd ei weld am y tro cyntaf mewn amgylchedd naturiol yn wefreiddiol.


*Corhedydd y waun yn bwyta pry' teiliwr*

Profiad newydd arall oedd mynd i Garreg Fawr i weld murluniau Brenda Chamberlain a fu'n byw ar Enlli am bymtheng mlynedd. Yn Carreg Fawr yr oedd hi'n byw am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw ac, ar y waliau yno, arferai baentio brasluniau ar gyfer ei phaentiadau. Mae pedwar o'r murluniau'n gofnod o wyliau a dreuliodd yn Ne Ffrainc ond, yng nghwrs y blynyddoedd, dirywiodd eu cyflwr i'r fath raddau nes y penderfynwyd sefydlu Cyfeillion Murluniau Enlli Brenda Chamberlain er mwyn codi arian i'w gwarchod a'u hadfer. Llwyddodd y Cyfeillion i gael cymorth ariannol gan Gronfa'r Loteri Dreftadaeth i wneud hynny, a bellach mae modd trefnu i weld y murluniau anghyffredin.

Roedd hi'n fore godidog drannoeth. Ystwytho'r cyhyrau, felly, a mynd i ben y mynydd. Roedd hi'n gynnes er nad oedd hi wedi troi wyth eto. Dros y Swnt, roedd bythynnod a chaeau Uwchmynydd, tai Aberdaron, Plas Bodwrdda a ffermydd y Rhiw a Rhoshirwaun i'w gweld yn glir. Y tu ôl iddyn nhw, roedd Garn Fadryn a'r Eifl dan fymryn o darth cynnar ac, ymhellach draw eto, roedd y Moelwynion a'r Cnicht, ac yna'r Rhinogydd a Chader Idris, yn ymdoddi i las tyner yr awyr. Roedd yna bump ehedydd yn canu uwchben, ac wyth o frain coesgoch yn cael sbri iawn wrth weu drwy'i gilydd yn yr awyr. Hedodd un wennol y bondo, dyrnaid o wenoliaid cyffredin, dau bila gwyrdd a phedwar nico heibio i ni ac, ym mhen pellaf y grib, daethom ar draws dau fwncath yn rholio drwy'r awyr gan gyffwrdd crafangau ei gilydd bob yn ail â pheidio.

Erbyn hynny, roedd y Patricia, prif long Corfforaeth Trinity House, wedi angori gyferbyn â'r Cafn, a threuliasom yr awr nesaf yn edmygu sgiliau eithriadol y criw, yn enwedig sgiliau peilot a winshmon yr hofrennydd wrth iddyn nhw hedfan yn ôl a blaen i symud deunyddiau diangen oddi ar dir y goleudy i'r llong.

Roedd yna sawl morlo newydd ei eni mewn cilfachau cysgodol o gwmpas yr ynys ac, o fewn tafliad carreg i ni, roedd un o'r ieuengaf ohonyn nhw'n sugno llaeth ei fam heb gynhyrfu dim, er gwaethaf ein presenoldeb dieithr ni.

Ond ym mherfeddion y nos y cawsom un o'r golygfeydd mwyaf trawiadol. Byddaf wrth fy modd yn mynd am dro yn y tywyllwch ar Enlli. Mae'r ynys yn rhydd o lygredd goleuadau trefol ac ar nosweithiau digwmwl, does dim ar y ddaear i guro'r olwg ryfeddol gewch chi o'r sêr a'r planedau (yn enwedig y Llwybr Llaethog) drwy sgôp neu sbienddrych. Ar y noson dan sylw, cawsom y bonws o weld Llewyrch yr Arth uwchben Sir Fôn, yn gyntaf, ac yna'n dawnsio ar yr ychydig gymylau uwchben Uwchmynydd.

Yn ystod yr wythnos, gwelsom 71 o wahanol rywogaethau o adar. Mi allen ni fod wedi gweld 72 ond fe lithrodd un aderyn drwy ein rhwyd. Glas y dorlan, ar un o'i ymweliadau prin iawn â'r ynys, oedd hwnnw. Siawns na ddaw o eto rywdro, ac y byddwn ninnau y tro hwnnw yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

**Ieuan Bryn**

(lluniau **Elfyn Lewis**)

## TAITH YM MALLTRAETH A CHOEDYDD NIWBWRCH

**Sadwrn, Tachwedd 21, 2015.**




*Criw hwyliog: Eifion, Dan, Margaret, Haf, Gareth, Dewi, Gwennan, Graham a John*

Wedi wythnos stormus, daeth naw aelod ynghyd ym Malltraeth, dan arweiniad Graham Williams, Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr ardal, i fwynhau taith ar hyd y Cob ac yn y coedydd i'r de o'r cob. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy.

'Roedd rhagolygon y tywydd yn addo cawodydd yn y bore gyda mwy o law erbyn y prynhawn. 'Roedd y gwynt miniog oer yn cymell yr aelodau a ddaeth i wisgo cap a menig. Gwelwyd rhydwyr a hwyaid cyffredin ar aber yr afon Cefni





*Pum gwyach bach yn bwydo yng ngheg yr afon*

oedd yn arllwys i'r môr ar derfyn ei thaith o Langefni drwy Cors Ddyga. Gwelwyd y crëyr glas ynghyd â nifer o'r crehyrod bach gwyn. Ar y llwybr ar hyd pen y cob 'roedd byrddau gwybodaeth a phlac yn nodi 200 mlynedd ers adeiladu'r cob yn 1812. Yr hwyaid mwyaf niferus yn y pwll ar ochr y tir i'r cob oedd yr hwyaid llostfain, a diddorol oedd sylwi ar y merlod bychain yn pori glannau'r pwll. Cafwyd hanes adeiladu'r cob a'r adennill tir a wnaed drwy ei adeiladu, ynghyd â sut y mae'r 'meddylfryd ' cadwraethol bellach yn cefnogi ail-foddi unwaith eto rhannau helaeth o'r gors. Cafwyd hefyd hanes stâd Bodorgan a sut mae'r llwybr arfordirol yn amgylchynu'r stâd drwy gaeau gwlybion i mewn yn y tir.

Wrth ddychwelyd at y maes parcio ym mhen y cob cafwyd un o uchel-bwyntiau'r daith o weld bilidowcar yn eistedd yng nghysgod y bont ac yna'n hela pysgod bychan yn nyfroedd y Cefni. Yng ngheg yr afon gwelwyd sawl gwyach bychan yn nofio, tra ar y lan gwelwyd cornchwiglod ac ambell gylfinir.

Aethom yn fintai wedyn i ben deheuol y cob ac i'r coedydd lle mae'r wiwer goch wedi ennill ei thir. 'Roedd titwod lu wrth y bwydwyr oedd yn hongian o goeden, a mân adar megis y robin goch, llwyd y gwrych ac adar duon yn y dryslwyni. Tra'n edrych ar yr hwyaid, gwyddau Canada a'r gwyach fawr ar y llyn yn y coed, clywyd y dryw bach yn dwrdio a gwelwyd sawl dryw eurben yn fflitian yn y coedydd.

Tra'n bwyta ein cinio, a dau aelod wedi eistedd wrth fwrdd picnic i wneud hynny, daeth un o'r cawodydd a addawyd. Cilio i'w car wnaeth y ddau. Gan fod ffenestri ceir pawb wedi stemio erbyn hyn, fe fu'n rhaid i bawb fynd allan i'r glaw i gael golwg ar y wiwer goch a ddaeth i fwydo o'r bocs ar goeden gerllaw y maes parcio. Yn ychwanegol gwelwyd gwiwer ddu, a ddaeth, yn ôl Graham, o'r Almaen, ac y sydd, yn ôl pob tebyg, yn cyd-fyw'n hapus efo'r wiwer goch. 'Roedd pob un ar y daith wedi cael modd i fyw wrth weld y gynffon flewog gringoch yn symud rhwng y brigau, a bydd sawl un yn sicr o ddychwelyd yno yn y dyfodol. Pleser arall



*Y crëyr yn edrych yn oer iawn*

oedd cael tamaid o gacen ffrwythau yr oedd Eifion wedi ei gwneud, ac yntau'n dweud fod pobl Môn wastad yn groesawus!!


*Cornchwiglen*

Prin iawn oedd yr adar a welwyd ar ôl cinio wrth i ni wneud cylchdaith drwy'r coed i weld y tyfiant a sefydlwyd ar y twyni noeth dros hanner can mlynedd yn ôl, pan sefydlwyd y goedwig am y tro cyntaf. Er mwyn sefydlogi'r twyni symudol, daeth y Cyngor Sir â thoriadau ochr y ffyrdd ym Môn a'u taenu dros y twyni. Fel canlyniad mae pob math o ddryslwyni'n tyfu ar y rhannau yma o'r coedydd. Dyrys iawn ydi'r gwaith cadwraethol, a bellach mae torri rhai mathau o goed yn hanfodol er hyrwyddo'r bio-amrywiaeth gorau.


*Hanner dydd, ac nid ni oedd yr unig rai i fwyta'n cinio*

Ar ddiwedd diwrnod difyr a llwyddiannus rhaid diolch i Graham am ein tywys, am ei wybodaeth ei hynawsedd a'i barodrwydd i arwain taith arall i'r dyfodol. Ie, - diwedd y daith fu paned a chacen ym Mrynsiencyn.

**Huw Dafydd**

*(lluniau **Huw** a **Gareth**)*

## ENWAU ADAR Y BYD

Ers tua ugain mlynedd bellach bu criw bychan yn paratoi rhestr o enwau Cymraeg ar adar y byd. Bu hon yn dasg enfawr, rhoi enwau ar dros 10,000 o wahanol adar. Bellach mae'r gwaith wedi ei gwblhau a chyn bo hir bydd y rhestr gyflawn i'w gweld ar wefan Cymdeithas Ted.

Bydd y ffeil wreiddiol yn cael ei chadw'n ddiogel, ynghyd â rhestrau enwau Cymraeg eraill, yng nghronfa ddata Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor a nhw fydd yn darparu'r cyswllt i wefannau eraill megis Cymdeithas Ted, Cymdeithas Edward Llwyd a Wicipedia Cymraeg.

## RHAGLEN IONAWR-MEHEFIN 2016

Mae'n bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob digwyddiad (cyswllt pwllheli@gmail.com ).

**Ionawr 23**
Taith yn ardal **Penmon a Biwmares** gyda **Gwen Richards**
Cyfarfod ym maes parcio Traeth Llanddona **SH566 806**.

**Chwefror 3**
Sgwrs: **Kelvin Jones** – ***Modrwyo yng ngwlad Noa***

**Chwefror 27**
Taith i **Ddyffryn y Fawddach** gyda **Rhys Gwynn**
Cyfarfod ger cwt y Bâd Achub yn y Bermo SH611 157

**Chwefror**
Taith i **Ynys Hilbre**
Dyddiad i'w drefnu (yn ddibynnol ar y llanw). Bydd bws mini i'n cario.

**Mawrth 3**
Sgwrs: **Rheon Pritchard** – ***Adar Uganda***

**Mawrth 19**
Taith ym **Mhontllyfni** a Dinas Dinlle dan arweiniad **Rhys Jones**
Cyfarfod am **10.00** yn y maes parcio bach ym Mhontllyfni (SH435526)

**Ebrill 7**
Sgwrs: **Twm Elias** – ***Adar Bala? Na, adar Bali***

**Ebrill 16**
**Gweilch y Ddyfi** ac arddangosfa ffotograffiaeth yn **Ynys-hir**.
Cyfarfod yng ngwarchodfa Gweilch y Ddyfi.

**Mai 16, 17 neu 18** (yn amodol ar y tywydd)
**Côr y Bore Bach** yn ardal **Llandecwyn** dan arweiniad **Haf Meredydd**
Cychwyn yn gynnar, gynnar yn y bore – manylion i ddilyn.

**Mai 28**
Taith yn **Nyffryn Nantlle** dan arweiniad **Gareth Jones** (Adar Eryri)
Cyfarfod ym maes parcio **Talysarn**

**Mehefin 11**
Taith **Ynys Lawd** dan arweiniad **Rhodri Dafydd**
Cyfarfod ym maes parcio RSPB Ynys Lawd

**Teithiau yn cychwyn am 10.30yb. (oni nodir yn wahanol) a'r sgyrsiau am 7.30yh.**

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**